**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr, Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Rhagfyr 2012

Annwyl Carl

**Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012**

Cyfarfu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddoe i drafod y rheoliadau uchod, ac mae nifer o bwyntiau yr hoffwn eu dynnu eich sylw atynt cyn y Cyfarfod Llawn ar 19 Rhagfyr.

Gwnaethom nodi na wnaethpwyd y rheoliadau'n ddwyieithog. Mae'r Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â hwy yn esbonio mai'r rheswm dros hyn oedd eu hyd a'u cymhlethdod technegol, yn ogystal â'r amser a oedd ar gael i'w llunio. Yn dilyn ychwanegu cymal machlud yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i baratoi rheoliadau'r dreth gyngor newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2014, rydym o'r farn y dylai'r rheoliadau newydd hyn gael eu paratoi'n ddwyieithog a gofynnwn i chi gadarnhau y bydd hyn yn digwydd.

Rydym hefyd o'r farn y byddai'n ddefnyddiol bod tabl o ddeilliannau'n cyd-fynd â'r rheoliadau newydd, a fyddai'n cynorthwyo gyda'r gwaith o graffu arnynt. Credwn fod hyn yn dangos arfer da, yn enwedig ar gyfer offerynnau statudol cymhleth ac offerynnau sy'n deillio o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig sydd eisioes yn bodoli.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8008
E-bost / Email: gareth.williams@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh